

Cyflwynwyd yr ymateb i ymgynghoriad y [Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol](#)  
ar [anhydraddoldebau iechyd meddwl](#)

This response was submitted to the [Health and Social Care](#)  
[Committee](#) consultation on [mental health inequalities](#)

MHI 48

Ymateb gan: | Response from: Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru |  
Healthcare Inspectorate Wales

---



**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) - ymateb i ymholiad ar:  
Anghydraddoldebau Iechyd Meddwl**

Rebecca Jewell, Pennaeth Strategaeth, Polisi ac Ymgysylltu  
Ymateb a gyflwynwyd ar ran Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC)  
Rydym yn cadarnhau y gellir cyhoeddi'r ymateb hwn ac nid oes angen trin  
unrhyw wybodaeth yn gyfrinachol.

Cwestiynau a ofynnir gan yr ymgynghoriad isod:

1. Pa grwpiau o bobl sy'n cael eu heffeithio'n anghymesur gan iechyd meddwl gwael yng Nghymru? Pa ffactorau sy'n cyfrannu at iechyd meddwl gwaeth yn y grwpiau hyn?
2. Ar gyfer y grwpiau a nodwyd, beth yw'r rhwystrau i gael mynediad at wasanaethau iechyd meddwl? Pa mor effeithiol y gall gwasanaethau presennol ddiwallu eu hanghenion, a sut y gellid gwella eu profiad o ddefnyddio gwasanaethau iechyd meddwl?
3. I ba raddau y mae polisi Llywodraeth Cymru yn cydnabod ac yn mynd i'r afael ag anghenion iechyd meddwl y grwpiau hyn? Ble mae'r bylchau yn y polisi?
4. Pa gamau pellach sydd eu hangen, gan bwy / ym mhle, i wella iechyd meddwl a chanlyniadau ar gyfer y grwpiau o bobl a nodwyd a lleihau anghydraddoldebau iechyd meddwl yng Nghymru?

Ymateb AGIC

Mae rôl AGIC o ran derbyn sicrwydd mewn perthynas ag ansawdd a diogelwch gwasanaethau a ddarperir i ddinasyddion yng Nghymru yn golygu, ochr yn ochr â gwaith rheoleiddio, adolygiadau, a gweithgareddau arolygu a sicrwydd, bod AGIC yn derbyn ac yn defnyddio ystod o wybodaeth am wasanaethau gofal iechyd.

Mae hyn yn cynnwys:

- Gwrando ar bryderon
- Archwilio pryderon a chanlyniadau diogelu
- Ymgysylltu a rhannu gwybodaeth â darparwyr gofal iechyd ac asiantaethau partner yn weithredol

Drwy driongli tystiolaeth o nifer o ffynonellau, mae AGIC yn derbyn darlun llawnach o ansawdd y gofal a'r cymorth a ddarperir gan wasanaethau gofal iechyd yn y GIG a'r sector annibynnol.

Gan ddechrau yng ngwanwyn 2021, cynhaliodd AGIC adolygiad o ofal mewn argyfwng iechyd meddwl yng Nghymru, a bydd yr adroddiad ar y canfyddiadau hyn yn cael ei gyhoeddi ar 10 Mawrth 2022. Mae cylch gorchwyl yr adolygiad hwn yn rhoi mwy o fanylion am gwmpas y gwaith hwn. Caiff yr ymateb isod ei lywio gan yr adolygiad hwn, ynghyd â'r ddealltwriaeth a'r wybodaeth a gawn o'n cyfres o waith arall, fel yr amlinellir uchod.

1. Pa grwpiau o bobl sy'n cael eu heffeithio'n anghymesur gan iechyd meddwl gwael yng Nghymru? Pa ffactorau sy'n cyfrannu at iechyd meddwl gwael yn y grwpiau hyn?

Mae adroddiad Llesiant Cymru 2021 yn nodi nifer o ffactorau/grwpiau o bobl sydd wedi'u heffeithio'n anghymesur gan iechyd meddwl gwael. Heb amheuaeth, mae'r pandemig wedi cael effaith sylweddol ar les meddyliol pobl, gyda gwasanaethau cymorth ddim ar gael fel clinigau cof i'r henoed. Nid yw llawer o grwpiau cymorth/rhyngweithiol cymdeithasol wedi gallu cyfarfod chwaith yn ystod adegau gwaethaf y pandemig. Y grwpiau o bobl yr effeithir arnynt yw: pobl hŷn, dynion mewn grwpiau lleiafrifol ethnig, a phobl mewn swyddi â chyflogau isel / â llai o sicrwydd. Mae pobl ifanc a phlant o deuluoedd incwm isel hefyd wedi cael eu heffeithio pan fu diffyg mynediad at dechnoleg a Wi-Fi i hwyluso dysgu ar-lein a chyswllt cymdeithasol yn effeithiol â'u cyfoedion.

Mae'r ffactorau'n cynnwys:

- Diffyg mynediad at dechnoleg a Wi-Fi
- Bwlch mewn sgiliau digidol
- Diffyg mynediad at wasanaethau iechyd meddwl wyneb yn wyneb
- Diffyg mynediad i ddigwyddiadau cymdeithasol/cymorth
- Oedi gyda gweithdrefnau iechyd corfforol / llawdriniaeth arferol sy'n effeithio ar iechyd meddwl unigolion
- Diffyg cymorth uniongyrchol gan deulu/ffrindiau oherwydd cyfyngiadau'r pandemig
- Diffyg sicrwydd ariannol
- Diffyg mynediad at ofal amserol

2. Ar gyfer y grwpiau a nodwyd, beth yw'r rhwystrau i gael mynediad at wasanaethau iechyd meddwl? Pa mor effeithiol y gall gwasanaethau presennol

ddiwallu eu hanghenion, a sut y gellid gwella eu profiad o ddefnyddio gwasanaethau iechyd meddwl?

Mae rhwystrau i fynediad yn cynnwys:

- Diffyg trafnidiaeth gyhoeddus
- Diffyg mynediad at dechnoleg ar gyfer gwasanaethau ar-lein
- Diffyg cymorth/addysg ynglŷn ag effeithiolrwydd y gwasanaethau hyn i hwyluso presenoldeb
- Diffyg staff profiadol/hyfforddedig i hwyluso'r gwasanaethau hyn
- Cyfyngiadau / diffyg capasiti gwasanaethau presennol
- Dealltwriaeth, gan y gwasanaethau, o sut y gallant gydweithio'n well i ddiwallu anghenion pobl
- Mynediad at ofal mewn argyfwng / gofal y tu allan i oriau

Sut y gall gwasanaethau ddiwallu eu hanghenion a sut y gellir gwella eu profiad:

- Cynllunio rhyddhau mwy effeithiol a sicrhau bod gwasanaethau cymorth iechyd meddwl ar gael
- Mae angen datblygu gwasanaethau ymyrraeth gynnar
- Ffocws ychwanegol ar brofiad y claf
- Arweinwyr dynodedig ar gyfer "arbenigeddau", e.e. anhwylderau bwyta
- Aseidiadau safonol i gleifion
- Creu llwybrau gofal newydd

3. I ba raddau y mae polisi Llywodraeth Cymru yn cydnabod ac yn mynd i'r afael ag anghenion iechyd meddwl y grwpiau hyn? Ble mae'r bylchau yn y polisi?

- Mae nifer o strategaethau ar waith, gan gynnwys Cynllun cyflawni Law yn Llaw at Iechyd Meddwl (2019-2020) a Chynllun Gweithredu Dementia Cymru (2018-2022) a Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010, sy'n canolbwyntio ar wella mynediad at wasanaethau a'u darpariaeth

Ble mae'r bylchau yn y polisi:

- Trefniadau pontio pobl ifanc rhwng gwasanaethau plant / pobl ifanc a gwasanaethau oedolion
- Archwilio / llywodraethu / gwerthuso gwasanaethau

4. Pa gamau pellach sydd eu hangen, gan bwy / ym mhle, i wella iechyd meddwl a chanlyniadau ar gyfer y grwpiau o bobl a nodwyd a lleihau anghydraddoldebau iechyd meddwl yng Nghymru?

- Mwy o waith integreiddio iechyd a gofal cymdeithasol yn cael ei hwyluso gan awdurdodau lleol a byrddau iechyd